County Hall
Cardiff
CF10 4UW
Tel: (029) 2087 2000

Neuadd y Sir
Caerdydd
CF10 4UW
Ffôn: (029) 2087 2000

# AGENDA

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor** | PWYLLGOR CYNLLUNIO |
| **Dyddiad ac amser y cyfarfod** | DYDD MERCHER, 13 MEHEFIN 2018, 1.30 PM |
| **Lleoliad** | YSTAFELL BWYLLGORA 4 - NEUADD Y SIR |
| **Aelodaeth** | Cynghorydd Keith Jones (Cadeirydd)<br>Cynghorwyr Lay, Ahmed, Asghar Ali, Congreve, Driscoll, Gordon, Hudson, Jacobsen, Jones-Pritchard a/ac Murphy |

**1 Ymddiheuriadau Am Absenoldeb**

**2 Penodi Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd**

Nodi y penodwyd y Cynghorydd Keith Jones yn Gadeirydd y Pwyllgor hwn a'r Cynghorydd Chris Lay yn Ddirprwy Gadeirydd yng Nghyfarfod Blynyddol y Cyngor ar 24 Mai 2018.

**3 Penodi Pwyllgor a'r Cylch Gorchwyl**

Penodwyd y Pwyllgor yng Nghyfarfod Blynyddol y Cyngor ar 24 Mai 2018 gyda'r Aelodau a'r Cylch Gorchwyl canlynol:

Aelodau:

Y Cynghorwyr Ahmed, Asghar Ali, Congreve, Driscoll, Gordon, Hudson, Jacobson, Keith Jones, Jones-Pritchard, Lay, Murphy a Sattar.

Cylch Gorchwyl:

Y swyddogaethau a restrir yn Adran A Atodiad 1 Rheoliadau Trefniadau Gweithrediaeth Awdurdodau Lleol (Swyddogaethau a Chyfrifoldebau) (Cymru) 2001 ac unrhyw newidiadau iddynt a materion cysylltiedig fel y diffinnir yn Rheoliad 4(2) i (6) y Rheoliadau.

Y swyddogaethau a restrir ym mharagraffau 1-12 Adran 1 Atodiad 1 Rheoliadau Trefniadau Gweithrediaeth Awdurdodau Lleol (Swyddogaethau a Chyfrifoldebau) (Cymru) 2001 ac unrhyw newidiadau a materion cysylltiedig fel y diffinnir yn Rheoliad 4(2) i (6) y Rheoliadau.

Trwy dderbyn y Pecyn Agenda hwn yn electronig, rydych wedi arbed yr Awdurdod tua. £ 5.93 mewn costau argraffu

**4** **Cofnodion**

Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Mai 2018 fel cofnod cywir.

**5** **Datgan Buddiannau**

I'w gwneud ar ddechrau'r eitem agenda dan sylw, yn unol â Chod Ymddygiad yr Aelodau.

**6** **Deisebau**

Derbyniwyd deisebau ynghylch y ceisiadau canlynol yn unol â Rheol 14.2 Gweithdrefn Cyfarfodydd Pwyllgorau. Mae'r deisebwyr wedi cael gwybod bod ganddynt hawl i siarad ac mae'r ymgeiswyr/asiantau wedi cael gwybod bod ganddynt hawl i ateb:

18/762/MNR - 304A Caerphilly Road, Llwynbedw, Caerdydd CF14 4ND

**7** **Ceisiadau Rheoli Datblygu**

**a** 304A Caerphilly Road, Llwynbedw, Caerdydd CF14 4NS

**b** 42 Treherbert Street, Cathays, Caerdydd, CF24 4JN

**c** Tir yn Rover Way, Pengam, Caerdydd

**8** **Penderfynwyd ar y ceisiadau gan Bwerau a Ddirprwywyd – Mai 2018**

**9** **Eitemau Brys (os oes rhai)**

**10** **Dyddiad y cyfarfod nesaf – 11 Gorffennaf 2018**

**Davina Fiore**
**Cyfarwyddwr Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol**
Dyddiad: Dydd Iau, 7 Mehefin 2018
Cyswllt: Kate Rees, 02920 872427, krees@caerdydd.gov.uk

**GWE-DARLLEDU**

Caiff y cyfarfod hwn ei ffilmio i’w ddarlledu’n fyw a/neu yn olynol trwy wefan y Cyngor.  Caiff yr holl gyfarfod ei ffilmio, heblaw am eitemau eithriedig neu gyfrinachol, a bydd y ffilm ar gael ar y wefan am 12 mis.  Cedwir copi o’r recordiad yn unol â pholisi cadw data’r Cyngor.

Ar ddechrau’r cyfarfod, bydd y Cadeirydd yn cadarnhau a gaiff y cyfarfod cyfan neu ran ohono ei ffilmio.  Fel rheol, ni chaiff ardaloedd y cyhoedd eu ffilmio. Fodd bynnag, wrth fynd i’r ystafell gyfarfod a defnyddio’r ardal gyhoeddus, mae aelodau’r cyhoedd yn cydsynio i gael eu ffilmio ac y defnyddir y lluniau a recordiadau sain hynny o bosibl at ddibenion gwe-ddarlledu a/neu hyfforddi.

Os oes gennych gwestiynau ynghylch gwe-ddarlledu cyfarfodydd, cysylltwch â’r Gwasanaethau Pwyllgorau ac Aelodau ar 02920 872020 neu e-bost Gwasanethau Democrataidd